



**Y Farwnes Hallett**  
**Cadeirydd Ymchwiliad Covid-19 y DU**  
**12 Mai 2022**

Annwyl Brif Weinidog,

#### YMCHWILIAD COVID-19 y DU - ARGYMHELLION CYLCH GORCHWYL

Pan wnaethoch fy mhenodi, gofynoch i mi ymgynghori â'r cyhoedd ar y cylch gorchwyl drafft ac fe wnaethoch ddarparu'r rheini i mi ar 10 Mawrth. Ar 11 Mawrth dechreuais y broses honno ac mae fy nhîm a minnau bellach wedi cwblhau ein dadansoddiad. Rwyf yn amgau'r Cylch Gorchwyl a argymhellir gennyf, sydd wedi'i ddiwygio ar sail dadansoddiad yr Ymchwiliad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ymatebodd dros 20,000 o unigolion a sefydliadau i'r ymgynghoriad. Yn ystod yr ymgynghoriad pedair wythnos, cynhaliais gyfarfodydd gyda dros 150 o deuluoedd a sefydliadau mewn profedigaeth sy'n cynrychioli gwahanol sectorau mewn dinasoedd ledled y DU. Clywais o lygad y ffynnon pa mor bwysig yw ymchwiliad trylwyr i'r modd y mae'r DU wedi ymdrin â'r pandemig coronafeirws. Fe wnaeth y broses hon ddarparu beirniadaeth addysgiadol ac adeiladol i mi o'r Cylch Gorchwyl drafft. Roedd yn dangos angerdd pobl i fod yn rhan o'r Ymchwiliad a'u hawydd i weithio gyda mi i sicrhau bod gwersi gwerthfawr yn cael eu dysgu.

Fe wnaeth yr ymgynghoriad ddatgelu meysydd lle gellid gwella'r Cylch Gorchwyl. Rwyf wedi gwrandao ar ddadleuon cymhellol i ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc, iechyd meddwl a lles poblogaeth y DU a chydweithio rhwng llywodraethau rhanbarthol, datganoledig a chenedlaethol, a'r sector gwirfoddol a chymunedol. Felly, rwyf yn gofyn i chi ehangu'r Cylch Gorchwyl i gynnwys y materion hyn.

Roedd effaith anghyfartal y pandemig yn thema a ddaeth i'r amlwg yn gryf mewn ymatebion i'r ymgynghoriad. Rwyf felly'n argymhell bod y Cylch Gorchwyl yn cael ei ail-lunio i roi anghydraddoldebau posibl ar y blaen fel bod ymchwiliad i unrhyw effeithiau anghyfartal y pandemig yn rhedeg drwy'r Ymchwiliad cyfan. Bydd yr argymhelliad pwysig hwn yn sicrhau bod yr Ymchwiliad yn gynhwysol o ran ei ddull gweithredu.

Yn olaf, rwyf yn cynnig nifer o newidiadau eraill i roi min ar ein ffocws. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys gofal yn y cartref, rheolaeth reoleiddiol, cymorth i ddiodeffwyr cam-drin domestig, a chyswllt cyntaf â'r GIG, gan gynnwys gwasanaethau 111 a 999.

Rwyf yn credu y bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod yr Ymchwiliad yn gallu cyflawni ei bwrpas orau i archwilio parodrwydd ac ymateb y DU i bandemig Covid-19, a dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

Rwyf yn gobeithio y byddwch yn derbyn fy argymhellion yn llawn. Bydd gwneud hynny'n cydnabod cyfraniadau pwysig pawb a gymerodd ran yn ymgynghoriad cyhoeddus yr Ymchwiliad a bydd gwneud hynny'n gyflym yn sicrhau y gall yr Ymchwiliad ddechrau ar ei waith ffurfiol yn ddi-oed.

Yn ddiffuant,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Y Farwnes Hallett', with a horizontal line underneath.

Y Gwir Anrhydeddus Farwnes Hallett DBE PC

Amg. Diwygiadau arfaethedig i'r cylch gorchwyl